




Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

MAPIO CYMRU YN GYMRAEG

Wyn Williams, Rheolwr Prosiect, [Mapio Cymru](#)



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Mae'r gweithdy hwn yn cynnwys:

1. Disgrifiad o gyrhaeddiad y prosiect yng nghyd destun grantiau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.
2. Esboniad o bwysigrwydd Data Agored i'r prosiect ac "awyrgylch" ac amgylchfyd y prosiect.
3. Ychydig o hanes a chefnidir y prosiect, a beth yw'r rol Rheolwr Prosiect yn ei olygu. Son hefyd am ein partneriaid gwreiddiol Data Agored Caerdydd.
4. Galwad am gymorth o ran gosod enwau Cymraeg cyfredol ac hanesyddol ar ein map o Gymru a welir fan hyn: <https://openstreemap.cymru>

Yn debyg i Wicipedia, gall unrhywun gyfrannu i'r map, ac yn wir gall hynny gynnwys cyfranogwyr y gynhadledd.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi bod o fudd mawr i'r prosiect #MapioCymru, sydd hefyd wedi denu sylw yn unig papur newydd cenedlaethol Cymru sef *Y Cymro*, ac felly hefyd ar Radio Cymru ar sioeau Aled Llanbedrog a'r Galwad Cynnar.

Mae'r prosiect yn awr yn gweithredu yn ddwyieithog, ac yn wir wedi mynd yn "feiral" yn yr iaith fain eleni wrth i Gymry – a phobl dros y byd i gyd – gydnabod pa mor arwyddocaol ydy enwau lleoedd o ran ein hanes ni a'n cymunedau. gyfnar.

Bywgraffiad

Cafodd Wyn ei fagu yn ardal Aberystwyth, ble mynychodd Ysgol Rhydypennau ac yna Ysgol Penweddig. Wedi graddio ym Mhrifysgol Manceinion, gweithiodd yn Radio Ceredigion, ac mae wedi parhau i weithio yn y cyfryngau hyd heddiw o dan enw Dai Lingual: a lansiwyd wrth iddo gwblhau MA Cynhyrchu Creadigol yn Adran Theatr Ffilm a Theledu Prifysgol Aberystwyth. Mae yn un o Gyfeillion Y Cymro ble mae'n gyfrifol am eu gwefan a chyfryngau cymdeithasol. O ran daearyddiaeth, cafodd 100% yn ei arholiad Blwyddyn 7 yn 1988 ac mae'n mwynhau darllen mapiau o'r byd i gyd.

Gorffennol Digidol 2020: Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan 12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

16 Y CYMRO

Map i Gymru: adeiladu map agored yn Gymraeg

Carl Morris ar sut i fapio eich ardal chi

Cymerwch gip ar y map yma a Cymru, ble mae'r enwau lleoedd i'w gweld yn Gymraeg: <https://openstreemap.cymru>

Mae'n hysbysu bod y map hon yn cael ei adeiladu'n gyhoeddus, a bod yna ffordd i'w gweld yn Gymraeg. Mae'n hysbysu bod y map hon yn cael ei adeiladu'n gyhoeddus, a bod yna ffordd i'w gweld yn Gymraeg.

#MapioCymru

'Posibiliadau cyffrous ym mhob math o feysydd'

Yn y dechrau o'r map hon, mae'n hysbysu bod y map hon yn cael ei adeiladu'n gyhoeddus, a bod yna ffordd i'w gweld yn Gymraeg.

Y CYMRO arlein - YCymro.Cymru